

---

## Cynyrchiadau gwreiddiol ar CBBC

Ymgynghoriad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'r  
Drwydded Weithredu

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 7 Ebrill 2022

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Rydym yn ymgynghori ar gais gan y BBC am ostwng cwota cynyrchiadau gwreiddiol CBBC yn Nhrwydded Weithredu'r BBC. Mae'r ddogfen hon yn nodi barn dros dro Ofcom ac yn gwahodd sylwadau gan randdeiliaid.**

- 1.1 Mae angen i'r BBC addasu ei gwasanaethau a'r mathau o gynnwys y mae'n eu comisiynu er mwyn parhau i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa. Mae diwydiant cyfryngau'r DU yn newid yn gyflym; bu twf enfawr yn y dewis o wasanaethau a chynnwys, datblygiadau mewn technoleg a newidiadau sylweddol mewn ymddygiad cynulleidfaeodd. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel y BBC, gystadlu am gynulleidfaeodd ac mae hynny wedi'i ddwysáu gan bwysau ariannol.
- 1.2 Mae'r angen am esblygu yn arbennig o aciwt yn y sector plant, lle bu newidiadau sylfaenol mewn arferion gwyllo. Dengys ein hymchwil fod plant yn gynyddol yn gwyllo cynnwys ar-lein: yn 2021, gwylodd tri chwarter y plant 3-17 oed wasanaethau ar-alw y telir amdanynt, o gymharu â llai na hanner a wylodd raglenni wrth iddynt gael eu darlledu ar deledu a amserlennir (h.y. teledu byw).<sup>1</sup> Mae'r rhan fwyaf o sianeli teledu plant wedi gweld gostyngiadau yn y niferoedd sy'n gwyllo. Mae CBBC, sianel deledu benodedig y BBC ar gyfer plant 6-12 oed, bellach yn cyrraedd dim ond 14% o'i chynulleidfa darged ar y teledu bob wythnos, o'i gymharu â 27% yn 2015.<sup>2</sup>
- 1.3 Mae'r BBC yn gorfod ymateb i'r dirywiad hwn. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig ei bod yn meithrin ac yn cynnal perthynas gref â chynulleidfaeodd iau. Fel rhan o'i chynlluniau i wneud hyn, ac i gryfhau apêl CBBC, mae'r BBC yn ceisio buddsoddi mewn mwy o animeiddio o'r DU ac yn cynllunio cynnydd bach mewn caffaeliadau. Bydd hyn yn effeithio ar ei Thrwydded Weithredu.
- 1.4 Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn mynnu bod o leiaf 72% o'r holl oriau a ddarlledir ar CBBC mewn blwyddyn galendr yn gynyrchiadau gwreiddiol (amod 2.32). Yn fras, rhaglenni yw'r rhain a gomisiynwyd gan neu ar gyfer Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU<sup>3</sup> gyda'r bwriad o'u dangos gyntaf yn y DU ar y Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus DU hwnnw. Gall cynyrchiadau gwreiddiol gynnwys ailddarllediadau ond nid caffaeliadau.<sup>4</sup> Ar wahân i hynny, mae gan CBBC gwtâu hefyd ar gyfer rhaglenni o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn debyg i gynyrchiadau gwreiddiol ond nid ydynt yn cynnwys ailddarllediadau (amodau 2.35 a 2.35A). Mae'r BBC yn gofyn am newid y gofyniad cynyrchiadau gwreiddiol (amod 2.32), ond nid y gofynion rhaglenni o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf (amodau 2.35 a 2.35A). Dyma ffocws yr ymgynghoriad hwn.

---

<sup>1</sup> [Arolwg rhieni'n unig, Ymwybyddiaeth plant a rhieni o'r cyfryngau - Ofcom, 2021.](#)

<sup>2</sup> BARB. Meini prawf cyrraedd: 3+ munud yn olynol, gwyllo cyfunol 28 diwrnod ar set deledu. Noder: Rhedwyd data BARB ar gyfer 2021 cyn i BARB gwblhau ailgyhoeddi eu data felly mae'n bosib y bydd yn newid ychydig.

<sup>3</sup> Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn golygu'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr a gedwir ac a gyhoeddir gan y BBC o dan Ran 1 yr Atodlen 1 i'r Cytundeb, fel y'i diwygir gan y BBC o bryd i'w gilydd. Golyga Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU y Gwasanaethau Cyhoeddus hynny yn y DU sy'n gyfystyr â gwasanaethau rhaglenni teledu.

<sup>4</sup> Paragraff 2.32 y Drwydded Weithredu.

### **Beth rydym yn ei gynnig**

Rydym yn bwriadu derbyn y cais gan y BBC i ostwng y cwota cynyrchiadau gwreiddiol ar CBBC o 72% o'r holl oriau i 66% ar gyfer blynyddoedd calendr 2022 a 2023, a 68% ar gyfer blwyddyn galendr 2024 ac wedi hynny.

Rydym yn cydnabod yr her y mae CBBC yn ei hwynebu o ran cynulleidfa. Ein barn gychwynnol yw ei bod yn iawn i alluogi'r BBC i amrywio gwasanaeth CBBC o fewn fframwaith ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus er mwyn aros yn berthnasol i'w chynulleidfa. Byddai'r newid yn golygu bod y BBC yn buddsoddi mewn animeiddiadau o'r DU gyda'r potensial i gyfrannu at apêl CBBC a chefnogi ei naws unigryw. Er y byddai gennym bryderon pe bai caffaeliadau'n chwarae rhan rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol CBBC, rydym o'r farn bod graddfa'r newid yn y Drwydded Weithredu a'r cyfle dilynol i gynyddu caffaeliadau yn gymedrol ac na fyddai'n effeithio'n negyddol ar ansawdd gwasanaeth CBBC.

### **Gwahoddir rhanddeiliaid i anfon sylwadau atom erbyn 7 Ebrill 2022.**

Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynoded lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.